

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Tudur Morris (Llansannan) a'r teulu oll yn dilyn marwolaeth ei fam, a hefyd Morfydd Williams (Llanfair) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Edith. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Howell Jones (Nantglyn), Ann Owen (Llanefydd) a Lyn Jones (Llanfair) ac yno hefyd y bu Elwyn Bailey (Llansannan) am rai dyddiau yr wythnos ddiwethaf. Mae Beryl Jones (Nantglyn) yn parhau'n yr Inffirmari ond mae Ceinlys M. Jones (Llansannan) wedi cael dod adref yn dilyn treulio rhai wythnosau yno. Treuliodd Rhiannon Evans (Llansannan) noson yn Ysbyty Gwynedd hefyd. Cyflwynwn hwy oll, ynghyd â'r rhai sydd wedi cael anffawd yn ddiweddar, ac eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd, i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal, ac yn eu hiachau.

CD o'r Oedfa

Rydym yn recordio'r oedfaon a gynhelir yn Llansannan yn wythnosol ac mae sawl un yn manteisio ar y cyfrwng hwn. Os oes rhai ohonoch yn methu dod i naill ai oedfa'r bore neu i Oedfa'r Fro ar nos Sul, neu'n dymuno cael ail-wrando ar yr oedfa, cysylltwch â Mair ac fe allwn ddarparu CD ar eich cyfer, yn wythnosol neu yn achlysurol. Cewch gopi i'w gadw am £1, neu gopi am ddim o'i ddychwelyd i'w ail-ddefnyddio.

Gallwch hefyd wrando ar y darlleniad a'r bregeth o Oedfa'r Fro ar wefan yr ofalaeth: www.eglwysibroaled.com. Mae'r rhai diweddaraf yn ymddangos ar y dudalen flaen o dan y pennawd PODLEDIAD neu gallwch wrando ar unrhyw un o'r pregethau trwy glicio ar y pennawd MP3 a gwneud eich dewis yno.

I ddod

- **Adnabod DAWN:** Sesiynau nesaf - Chwefror 26ain, Mawrth 12fed.
- Bydd y cyfarfod nesaf ar gyfer **Chwirydd Eglwysi Bro Aled** ar Nos Fawrth, Mawrth 12fed, ac mae trefniadau ar y gweill i fynd i ymweld â'r Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **Llanw** - Cynhelir Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod yn Sir Benfro rhwng Ebrill 1af-5ed. Mae croeso i bawb - plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Mae manylion y siaradwyr a sut mae archebu lle ar y wefan www.llanw.org.
- **Darlith ar Thomas Jones, Dinbych ac achos yr Efengyl yn yr ardal** nos lau Dyrchafael, Mai 9fed yn Festri Llansannan am 7.30 gydag Andras Iago yn darlithio.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10^{fed} Chwefror 2013

Darlleniad y Dydd

Exodus 24: 12-18

(BCND tud.73 / BCN: tud.66)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Croeso i'r oedfaon heddiw! Dwi am ofyn y cwestiwn – a fydd archeolegwyr y dyfodol yn darganfod esgyrn yr Arglwydd Iesu fel y gwnaeth archeolegwyr Prifysgol Caerlyr hefo'r brenin Rhisiart 3ydd?

Gwrandewais yn astud ar y datganiad i'r wasg a rhannu'r wefr a gafodd y tîm o'r Brifysgol wrth iddynt brofi mai esgyrn Rhisiart oedd y rhai a gawsant hyd iddynt o dan y maes parcio yng nghanol y ddinas! Mae'n edrych yn debyg eu bod wedi cael hyd i'r bedd yn weddol fuan ar ôl dechrau tyllu ym mis Medi y llynedd ond bod angen gwneud profion manwl i wneud yn siŵr. Mae'r gwaith o ailadrodd hanes ac o ailasesu cyfraniad Rhisiart y 3ydd wedi cychwyn yn barod. Sut Frenin oedd o tybed? A oedd o mor greulon ag y darlunir ef gan Shakespeare ac eraill? Yn ei esgyrn y mae olion y clwyfau a gafodd mewn brwydrau ac mae ei gefn yn gam.

I ni'r Cymry mae 'na arwyddocad arbennig i farwolaeth Rhisiart oherwydd mai Harri Tudur y Cymro ddaru ei drechu ar faes Bosworth a dod yn frenin Lloegr gan gychwyn olyniaeth enwog a dylanwadol y Tuduriaid.

Ond i fynd yn ôl at y cwestiwn! Lle mae esgyrn ein Brenin ni, Iesu? Beth ydi datganiad i'r wasg ein ffydd ni fel Cristnogion? Dychmygwch y gynhadledd i'r wasg honno y byddai Pedr, Ioan a Mair yn rhan ohoni ar bnawn y trydydd dydd wrth iddynt ddisgrifio beth a gawsant yn y bedd y bore hwnnw! Dim asgwrn yn unlle!! Y llyeiniau a fu o amgylch ei gorff drylliedig – ond dim corff! Tystion yn dweud am glywed Llais yn cyhoeddi “Nid yw Ef yma – y mae wedi ei gyfodi fel y dywedodd y byddai: dewch i weld y man lle bu'n gorwedd!”(Mathew 28: 5-6) A Mair yn tystio mewn gorfoledd ei bod wedi gweld ei Harglwydd yn fyw!

Mae'r ffordd y byddwn yn ateb y cwestiwn yn dweud llawer wrthym am y ffydd sydd ynom. Credwn yn atgyfodiad corff Crist ac y mae hyn yn rhoi gobaidh i ninnau y cawn ein hatgyfodi mewn cyrff newydd. Fel hau hedyn, y mae'r corff sydd yn mynd i'r pridd yn wahanol iawn i'r planhigyn sy'n dod allan. Ac felly y bydd hi yn yr atgyfodiad. Heuir mewn gwendid, cyfodir mewn nerth! (1 Corinthiaid 15: 42-43) Wrth ystyried atgyfodiad Crist bydd yn rhaid i ninnau – a'r byd i gyd – ailasesu awdurdod Brenhiniaeth Iesu drosom. Nid ar chwarae bach y cyhoeddwn mai Iesu yw'r Arglwydd!

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Cwrs Ieuencid yng Ngholeg y Bala**, Chwefror 12fed-15fed
- Mercher • Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod.
- Iau • **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Oedfa yn cael ei harwain gan Aneurin a Rhodri fydd hon i gloi a chrynhoi y gyfres ddiwethaf ar 'Weddi' ac i wneud unrhyw sylwadau perthnasol neu i holi cwestiynau sy'n ymwneud â gweddi. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Andras Iago yn arwain oedfa i'r daith yn Neuadd Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth Cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Neuadd Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf Bydd Andras Iago yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Andras Iago yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a bydd Oedfa Thema yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn y ddwy eglwys am 2.00.
- Mercher Bydd Cymdeithas Capel Henllan yn cyfarfod am 7.30 pan fydd Mr John Owens, Llanefydd yn rhoi sgwrs ar ei waith fel Cyfreithiwr.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Andras Iago yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau